

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 2 Rhif 10

Yn rhad ac am ddim

Ionawr 2022



Nadolig Llawen i chi gyd!

Rhywbeth ar y Gweill

gan Liz Backen

Roedd Gwen yn gwau yn yr hen gadair, gorchuddiwyd hi bron dan y gwlân a syrthiodd lawr at ei thraed yn nentydd lliwgar. Menyw dawel iawn oedd hi, hapus iawn i eistedd yn ei chadair, gyda'i bysedd yn symud, ei ewinedd yn taro ar y gweill a'i theulu o'i chwmpas hi. Roedd yna wastad rhywbeth ar ei gweill: hetiau babanod, sanau bychain, ac ambell waith rhyw degan bach gwlanog i un o'i wyrion. Roedd sŵn ei gweill yn arfer llenwi'r hen dŷ fel cloc yn tician mewn rhyw gornel

Blwyddyn honna, fel bob blwyddyn, roedd hi'n bwrw'r Nadolig gyda'i merch Sara a'i gŵr Tomos, a'u tri o feibion bach. Nawr, fel eu harfer, roedd y bechgyn yn cweryla, yn uchel, wrth ei thraed.

'Ro'n i eisiau'r balŵn coch!' dywedodd Owain.

'Fy malŵn i yw e!' atebodd Elis wrth ddal yn nyn arno fe ac edrych ar ei frawd mawr yn grac.

'Fi'n chwech nawr a fi yw'r henaf, felly dw i'n cael y mwyaf o bob dim!' atebodd Owain yn syth.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

‘Dyw ‘na ddim yn deg,’ cwynodd ei frawd bach Elis.

‘Dw i’n mynd i ddweud wrth Mam!’ udodd Iori, fel gwnaeth e bob tro!

‘Paid â chipio fe Iori! Mae’n mynd i fyrstio...’

Bang!

Roedd saib. Stopiodd y gweill hyd yn oed.

‘Mam!’ udodd Iori.

Cododd Gwen ei phen i edrych dros ei gweill tuag at y drws. Rhuthrodd Sara i mewn i’r lolfâ, yn sychu ei dwylo ar ei ffedog.

‘Beth ddigwyddodd tro ‘ma bechgyn?’ gofynnodd hi’n flinedig.

Ail-ddechreuodd y gweill. Roedd Gwen yn gweithio’n galed iawn ar rywbeth streipïog gyda llewys hir. Doedd hi ddim yn mynd i stopio, roedd Nadolig yn dod yn nes. Yn fuan daeth sŵn y gweill o’i chadair freichiau unwaith eto, fel curiad o rywun sy newydd gwblhau marathon.

Wel, mae'r byd yn troi a'r plant yn tyfu. Y Nadolig canlynol, roedd dasg bwysig ‘da Gwen ac roedd hi’n gwenu’n hapus yn ei hen gadair freichiau. Roedd rhywbeth newydd ar ei gweill: siwmperi ysgol i’r bechgyn. Roedd Owain newydd droi yn saith oed ac Elis yn teimlo’n falch iawn i fod yn bump ac yn yr un ysgol â’i frawd mawr. Roedd Gwen yn gweithio’n gyflym yn ôl ei harfer, ei gweill yn clician yn brysur tra oedd yr edau glas tywyll yn gwibio ar draws y gweill. Serch hynny, dyw rhai pethau byth yn newid: roedd y bechgyn yn dal i frwydro, yn rhedeg o gwmpas ei chadair yn bloeddio ac y sgrechian. Tro hwn, roedd e am graceri Nadolig.

Roedd y craceri i gyd yn union yn debyg: sgleiniog ac yn wyrdd, gyda rhubanau coch o’u cwmpas nhw. Yn anffodus, roedd un ohonyn nhw’n drymach na’r lleill. A dyna oedd y broblem, problem enfawr hefyd! Roedd y ddau fachgen arall yn credu bod y tegan gorau ynddo a nawr ro’n nhw rhedeg ar ôl Iori yn ceisio i’w ddal. Roedd yr edau glas yn glynu wrth eu traed ac yn llusgo ar eu holau wrth iddyn nhw rasio heibio’r gadair yn gweiddi nerth eu pen.

Brysiodd Sara o’r gegin, yn gwthio ei gwallt bant o’i hwyneb gyda’i bysedd ac yn gadael olion o flawd ynddo.

‘Peidiwch â rhedeg ar ôl Iori fel ‘na! Dim ond tair oed yw e! Dwi ‘di dweud wrthynt chi ganwaith, on’ d dw i?’

‘Sori Mam,’ dywedodd y bechgyn wrth edrych ar eu traed a sylwi am y tro cyntaf roedd ‘na edefyn glas yn glynu wrthyn nhw.

‘Os dych chi eisiau mins peis bois, bydd rhaid i chi ddweud rhywbeth wrth Mam-gu,’ parhaodd eu mam, yn plethu’i breichiau ac yn edrych arnyn nhw’n llym.

‘Sori Mam-gu,’ dywedon nhw i gyd.

‘Mae’n iawn,’ dywedodd Mam-gu, gyda gwên fach yn ymddangos am eiliad, cyn iddi hi ddiflannu tu ôl ei gweill unwaith eto. Roedd hi’n gweithio ar y goler nawr a ro’n nhw wastad yn anodd. Aeth hi’n ôl at gyfri ei phwythau, ei bysedd yn symud ar hyd y gweill yn gyflym.

Symudodd y gweill yn fwy araf y Nadolig honna. Roedd e’n anodd iddi hi weld y pwythau gwyn yn glir ac yn bendant roedd e’n anoddach i ddal y gweill. Roedd ei dwylo’n crynu ychydig pan oedd hi’n gwau y dyddiau ‘ma. Ochneidiodd hi ond wnaeth hi ddim stopio; roedd pwythau dal i gyfri a phethau dal i wneud. Roedd hi’n benderfynol o orffen cyn mis Rhagfyr fel gallai’r bechgyn cael eu hanrhegion. Gydag ychydig o lwc, bysai hi’n cwblhau ei gwaith mewn amser. Wrth iddi hi wau, roedd hi’n meddwl am un Nadolig yn benodol, amser maith yn nôl nawr, yr un gyda’r hosanau. Hosan wen Elis oedd hi a gallai Gwen weld o hyd eu hwynebau pan oedd y ddau fachgen arall yn sylweddoli bod yr hosan wedi cael ei rwygo, a chlywed sŵn Tom a Sara’n rhuthro tuag at y lolfâ.

Pryd hynny, roedd Iori dal yn ifanc, tua phump oed ac roedd e wedi bod yn chwarae rhan y cawr o Siac a’r Goeden Ffa, gan wisgo’r hosanau Nadolig fel sanau ac yn gweiddi, ‘Ffi, Ffai, Ffo, Ffw!’ wrth gloesio o gwmpas y lolfâ yn chwilio am Owain. Roedd Iori bach yn frwdfrydig iawn ac mewn dim o dro mae e wedi rhwygo’r pwythau yn hosan Elis. Wel, doedd hynny ddim wedi digwydd yn y pantomeim welodd e jyst cyn Nadolig, felly yn syth dechreuodd Iori grio a bloeddiodd Elis tra bod Owain yn sefyll wrth y drws yn edrych yn euog. Gwnaeth e gymryd Sara a Tomos ymdrech

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

enfawr i dawelu'r bechgyn ond cyn bo hir ro'n nhw'n chwarae gyda'i gilydd ymhlith y papur lapio. Chwarddodd Gwen dan ei hanadl a siglodd ei phen. Gwenodd hi ac, er bod ei bysedd yn brifo, roedd y gweill yn ailddechrau unwaith eto, curiad tawel y tŷ.

Roedd tŷ Sara'n edrych yn union fel gwnaeth e bob Nadolig, gyda'r addurniadau ym mhob twll a chornel a'r un un goeden Nadolig. Roedd un gwahaniaeth enfawr: roedd e mor od i weld cadair wag Mam-gu. Rhodd Sara'r anrhegion dan y goeden, wrth feddwl am ba mor dawel bysai ei thŷ eleni heb sŵn y gweill. Roedd ei mab henaf yn tynnu at ei arddegau nawr felly roedd llawer o focsys dan y goeden yn fach ac yn sgwâr ac yn llawn tegannau siŵr o fod. Ond, roedd anrhegion mam-gu'n hollol wahanol. Ro'n nhw wedi cael eu lapio'n ofalus, mewn papur aur oedd yn pefrio dan y golau Nadolig.

Daeth ei meibion i mewn i'r lolfar garlam. Ceision nhw beidio edrych ar y gadair wag ac aethon nhw'n syth at y goeden. Roedd distawrwydd cyflawn yn y tŷ tra bod y bechgyn yn agor anrhegion olaf mam-gu. Tu fewn i bob un roedd tri addurn bach gwlanog: un hosan wen, un gracer Nadolig gwyrdd gyda rhuban coch o'i gwmpas, ac un balŵn crwn, coch. Gwenodd Sara ar unwaith.

'Doedd Mam-gu ddim yn dweud llawer ond gwelodd hi bopeth!' chwarddodd Sara.

'A deallodd hi'r cyfan,' ychwanegodd ei fab henaf.

Eisteddodd Sara yn y gadair freichiau i edrych ar y bechgyn yn rhoi'r addurniadau ar y goeden. Cododd hi'r hen weill a dechreuodd hi wau'r gwllân meddal, pinc.

Roedd rhywbeth ar y gweill, rhywbeth gwahanol, rhywbeth newydd.

Gwyliau Tramor

gan Liz Long

Pob blwyddyn mae fy ngŵr a finnau yn ymweld ag Uppsala yn Sweden. Dyna le mae Edward fy mab, a'i wraig Emma a'r tri o blant, William, James a Vera yn byw.

Mae Uppsala yn ddinas fawr tuag awr ar y trê'n i'r gogledd o Stockholm. Mae'r eglwys gadeiriol yn y canol, dyma le fydd brenin neu

frenhines Sweden yn cael eu coronï. Mae'r ddinas yn ddeniadol gydag afon yn rhedeg trwyddi. Y tro diwethaf roedden ni yna aethon ni i weld llyfrgell Karolinska a hefyd gerddi Carl Linneus.

Mae Sweden yn lle pleserus i'w ymweld yn enwedig yn yr haf. Mae'r tywydd yn dwym ac yn fwy sych na Chymru, ond yn y gaeaf mae'n rhy oer ac mae'r dyddiau yn fyrrach. Mae llawer o eira rhwng mis Ionawr a mis Mawrth.



Mae tua naw miliwm yn byw yn y wlad, rhan fwyaf o bobl yn y de neu yn y canol, llai o bobl yn y gogledd achos mae'n rhy oer. Mae rhan fwyaf o'r bobl yn byw mewn fflatiau, llawer ag ail dŷ yn y wlad neu yn agos i'r arfordir. Mae costau byw yn uchel a'r trethi hefyd – tua 30 y cant ond maen nhw'n gwario eu harian yn synhwyrol.

Mae gofal plant yn rhagorol a dim mor ddrud â Phrydain. Mae'r plant yn dechrau ysgol yn saith oed ac maen nhw'n aros hyd at un deg naw oed. Mae Edward yn siarad Swedeg yn rhugl ac mae ein hwyres a'r ddau ŵyr yn siarad y ddwy iaith.

Pan dyn ni'n mynd i Sweden dyn ni'n hedfan o faes awyr Heathrow i faes awyr Arlanda (Stockholm) - tua dwy awr. Mae llawer o bobl Sweden yn siarad Saesneg fel ail iaith.

Gobeithio byddwn yn mynd i Uppsala yr haf nesaf - mis Mehefin yw'r amser orau. Byddwn ni wedi ein cyffro wrth weld ein teulu ni am y tro cyntaf mewn tair blynedd.

Mae Sweden yn wlad gydraddol, pawb yn gyfartal ac ar ôl gael genedigaeth mae'r rhieni yn cael rhannu flwyddyn o ryddhad o'r gwaith, y tad yn cael ei orfodi i gymryd tri mis!

Yn Sweden does neb yn defnyddio arian parod, pob peth yn cael ei dalu ar gerdyn.

Mwynheais fy ngwyliau yn Sweden ond eto mwynheais ddod adref i Abertawe!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Blodau mis Ionawr beth fydddech chi'n gweld?

gan Rob Evans



Ar y 15fed o Hydref 2021 cawson ein cyfarfod blynyddol cyntaf ers Medi 2019, mae'r hen bandemig yma wedi achosi problemau dros y ddeunaw mis diwethaf, ac yn parhau i'w wneud hefyd. Cyfle i gyfarfod ein haelodau yw'r gynhadledd ond rywsut dydi cyfarfod ar Zoom ddim yr un peth. Does dim cyfle i gael sgwrs ac ar ôl y cyfarfod mae'r sgrîn yn sydyn iawn yn mynd yn ddu - popeth drosodd! Dim cyfle i gael sgysiau am rywbeth wnaeth godi yn y cyfarfod.

Ac mi oedd rywbeth i drafod. Roedd Goronwy Wynne, ein llywydd wedi gosod tasg i ni. Roedd o eisiau i ni fynd allan yn ystod y chwe diwrnod cyntaf yn y flwyddyn newydd a chwilio am ba flodau sydd i'w weld. Dydyn ni ddim yn meddwl am flodau yn eu harddwch yng nghanol y gaeaf nac ydan? Ond mae yna rhai. Meddyliwch am yr eithin, roedd y dyn a ddywedodd "Mi fydda i'n dy garu tra bydd blodau ar yr eithin" ddim yn trio rhoi'r argraff mai dim ond dros dro oedd ei gariad tuag ati achos mae blodau ar yr eithin trwy'r flwyddyn. Mae'n rhaid gobeithio roedd ei gariad yn ymwybodol o hyn wrth gwrs!

Neithiwr roeddwn i'n meddwl am hyn ac mae heddiw wedi deffro efo haul ac awyr las, roedd gen i bethau i'w wneud y bore ma ond wedyn, a'r ddiwrnod yn rhy braf i wastraffu, es i am dro. Mae yna gylchdaith trwy'r coed dw i'n gwneud yn aml a cherddais hanner milltir i fyny'r ffordd i gyrraedd y mynediad. Erbyn hyn mae rhan fwyaf o'r dail ar y llawr a'r haul yn tywynnu trwy'r brigau'n ddirwystr. Doedd dim blodau i'w gweld

yn unman. A fydd gobaith gweld rhai ym mis Ionawr?

Ond wrth fynd ymlaen dw i'n gweld ysgallen, nid mewn blodau ond ar fin blodeuo. Druan bach! Ond mae pawb yn drysu'r dyddiau yma! Mae gweddillion y mwyar duon o gwmpas ond esgus am fwyar ydyn nhw. Maen nhw'n rhy hwyr beth bynnag, bydd y diafol wedi poeri arnyn nhw i gyd erbyn hyn, neu rywbeth gwaeth! Ond yng nghanol y mwyar dw i'n gweld blodeuyn, dim ond un ond eto yn dangos balchder. Dydi pethau ddim yn rhy addawol am fis Ionawr! Ond wedyn des i ar draws blodau melyn yr eithin yn gweiddi "Dyn ni yma o hyd!"

Doeddwn i ddim yn disgwyl gweld unrhyw beth arall ond mi oedd bleser arall i ddod. Wrth gerdded ymlaen welais i gwpl yn cerdded tuag ataf fi ac, wrth iddyn nhw nesáu roeddwn i'n amau eu bod nhw'n siarad Cymraeg efo'i gilydd. "Prynhawn da" medda fi wrth wenu. "Prynhawn da" medden nhw efo gwên llydain ar eu hwynebau.

Roedd yn werth mynd am dro a chael haul, awyr iach a geiriau Cymraeg!

Diwydiannau Hen Benclawdd

gan Anne Nicholls

Mae pentref Penclawdd wedi ei leoli ar arfordir gogledd Gŵyr ar aber yr afon Llŵchwr. Mae'n gul ac un filltir a chwarter yn hir. Mae'r pentref yn enwog am ei ddiwydiant cocos, ond yn llai adnabyddus am ei ddiwydiannau trwm.



Diwydiant Penclawdd

Erbyn y ddeunawfed ganrif, roedd diwydiant copr wedi'i sefydlu yn y pentref. Roedd mwyn copr yng Nghernyw ac roedd Penclawdd ar faes glo de Cymru. Roedd e'n haws i ddod â chopr i'r glo na mynd â'r glo i'r gopr, ac wrth gwrs, roedd angen glo i danio'r ffwrneisiau. Daeth y copr i Benclawdd ar longau hwyliu. Roedd porth dwfn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

a dociau ym Mhenclawdd ar y pryd. Starling Benson oedd y perchennog ac roedd yn byw yn Fairy Hill, tŷ hyfryd yng nghanol pentref Reynoldson. Yn hwyrach, roedd gwaith plwm a gwaith plât tun ar yr un safle hefyd. (ble mae Archfarchnad C K's erbyn hyn)

Erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd John Henry Vivian o Gernyw yn reolwr y gwaith. Tua 1870, adeiladwyd rheilffordd o Dre Gŵyr i Benclawdd. Gallai nwyddau'r gwaith fynd ar drên i ddociau Abertawe. Nid oedd angen iddyn nhw dibynnu ar y llanw a'r tywydd. Yn hwyrach, estynnwyd y rheilffordd tu hwnt i Benclawdd cyn belled â Llanmorlais lle oedd pyllau glo. Ymhen amser, defnyddiwyd y trên gan deithwyr.



Gorsaf Penclawdd 1912

Daeth llawer o dynion i Benclawdd i weithio yn y gwaith. Daethant o'r tu allan i'r pentref - er enghraifft, gorllewin Cymru, de Cymru, dwyrain Cymru a Lloegr. O ganlyniad, roedd rhan fwyaf o bobl yn y pentre' yn dal yn siarad Cymraeg yn unig, ond nawr mae rhai ohonyn nhw yn siarad Saesneg, rhai yn siarad Cymreig a Saesneg a rhai yn siarad hanner a hanner. Dywedodd Win Walters, "Pan ro'n i yn yr ysgol, dw i'n cofio fy ffrind yn gofyn i fi, "wyt ti wedi darllen y llyfr Jane Gwallt?" "Na, atebais, dw i erioed wedi clywed am lyfr Jane Gwallt." "Wyt, wyt, t'mod," meddai hi, "Jane Gwallt - Jane Eyre."

Mae llawer o'r enwau yn y pentref wedi'u cysylltu â'r gwaith copr. Mae Starling Benson wedi gadael ei enw yna: Stryd Benson; Teras Benson; ac roedd Sir Karl Jenkins yn byw ym Mwthyn Benson. Daeth Edgar Nurse i Benclawdd o Swydd Gaerloyw i weithio yn y gwaith plât tun. Roedd yn godwr a daeth yn adnabyddus fel 'Nyrs y Codwr'. Prynodd tŷ teras

ar ben pellaf Station Row. Ar ôl iddo ymddeol, daeth fasnachwr glo a phrynu lorri er mwyn ddosbarthu'r glo. Rhoddodd pwmp petrol wrth ymyl ei dŷ. Roedd rhain yn denu bechgyn y pentref. Nid oedd Edgar yn hapus a gweiddodd arnynt, "Ewch o 'ma, dyma gornel Nyrs!" Mae'n parhau i gael ei alw 'Nurses Corner' (gyferbyn Gower Timber) hyd heddiw.

Symudodd John Henry Vivian i weithio yng ngwaith copr, Vivian and Sons yn yr Hafod yn Abertawe. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y diwydiannau wedi cau ym Mhenclawdd ac aeth rhan fwyaf o'r dynion i weithio mewn gweithfeydd yn Nhre Gŵyr, Gorseinon, Pontarddulais, ac ati.

Ar wahân i'r diwydiannau roedd ffactorau eraill a effeithiodd ar y Gymraeg ym Mhenclawdd. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cyflwynwyd y 'Welsh Not' a chosbodd y plant am siarad Cymraeg. Cofiodd Daniel Rees a oedd yn ddisgybl yn y 'Board School' leol, "Cyn i fi fynd i'r ysgol ro'n i'n siarad Cymraeg yn unig. Roedd yn anodd iawn i mi siarad Saesneg. Ro'n i mor anhapus yna."

Yn yr ugeinfed ganrif roedd y Cymry'n dal i ddigalonni. Credwyd y byddai'r Gymraeg yn effeithio ar Saesneg y plant. Roedd yn bwysig i blant basio'r arholiad ysgoloriaeth - a oedd yn Saesneg - i fynd i'r ysgol ramadeg.

Nawr, mae pethau wedi newid. Does dim ysgol ramadeg yng Nghymru. Mae ysgolion yn yr ardal sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg - ysgolion Cynradd yng Nghas Llwchwr a Phont Brenin ac ysgol Gyfun yn Nhre Gŵyr.

Gobeithio, y bydd y Gymraeg yn parhau a mynd o nerth i nerth ym Mhenclawdd.

Hanes Y Gymraeg

Yr 17eg a'r 18fed Ganrif – Rhan 2

gan Martin Jones

Ar ddiwedd Rhan 1, gwelon ni sut roedd ysgolion cylchynol Griffith Jones wedi helpu i wneud y Cymry yn un o'r bobl fwyaf llythrennog yn Ewrop erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif. Wrth i ddyddiau'r ysgolion hyn ddod i ben tua 1790, yn eu lle daeth y mudiad Ysgolion Sul wedi'i drefnu gan Thomas Charles. Doedd

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ysgolion Sul ddim yn newydd, ond doedd Cymru ddim wedi gweld dim byd mor bellgyrhaeddol a chyfundrefnol â chyfundrefn Thomas Charles o'r blaen. Fel ysgolion Griffith Jones, dysgodd ysgolion Sul Thomas Charles ddarllen Gymraeg i oedolion a phlant yr un fath, ac o ganlyniad, cafodd y lefel uchel o lythrennedd ymysg y bobl werin ei gynnal.

Ar yr un pryd â gwaith ardderchog Griffiths Jones, daeth y Diwygiad Methodistaidd. Deallodd arweinwyr y Methodistaidd bod rhaid iddyn nhw ddefnyddio'r iaith Gymraeg er mwyn ennill eneidiau eu cyd-Gymry. Byddai eu pregethwyr tanbaid yn teithio ar draws y wlad, a helpodd eu pregethau i gyflwyno ffurf safonol o Gymraeg llafar o'u pulpudau a gododd uwchlaw unrhyw dafodieithoedd lleol. Roedd defnyddio emynau'n nodwedd bwysig ar eu gwasanaethau, a daeth cyfansoddiadau emynau megis rhai William Williams, Pantycelyn, ac Ann Griffiths yn eiconau'r iaith Gymraeg.



Ann Griffiths

William Williams

Hefyd yn y ddeunawfed ganrif, daeth i'r amlwg grwpiau o ysgolheigion a phobl frwdfrydig eraill a oedd yn benderfynol o adfer statws yr iaith Gymraeg a hanes Cymry. Er enghraifft, dangosodd Edward Llwyd bod Gymraeg ddim yn "gibberish" (fel dywedodd y dychanwyr o Loegr) ond yn gysylltiedig ag ieithoedd Celtaidd eraill, a bod gyda Chymraeg hanes hir a pharchus.

Cyhoeddwyd geiriaduron a gramadegau Cymraeg, a chynhwysodd geiriaduron John Walters a William Owen Pughe sawl gair wedi'i ddyfeisio i fodloni anghenion cyfoes. Rydyn ni'n dal i ddefnyddio rhai o'r geiriau hyn bob dydd heddiw (e.e. cyngerdd, cyfrifoldeb, diddorol, pwyllgor). Helpodd y geiriaduron hyn i'r Gymraeg ddatblygu erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg i mewn i iaith fodern gyda geirfa gyfoethog a chymhleth.

Ymhlith y rhai brwdfrydig eraill oedd y brodyr Morris o Ynys Môn. Ysbardunodd gweithgareddau'r brodyr a'u cylch diddordeb yn y Gymraeg a'i lenyddiaeth. Hefyd sefydlon nhw "The Honourable Society of Cymmrodorion" yn Llundain yn 1751, a daeth yn fodel ar gyfer cymdeithasau Cymreig diweddarach â diddordeb mewn astudio a thrafod materion Cymreig a Chymraeg.

Yn ôl Cyfrifiad 1801, roedd poblogaeth Cymru yn 587,000. Roedd y mwyafrif yn siarad Cymraeg fel iaith bob dydd, ac mae'n bosib bod hanner miliwn ohonyn nhw'n uniaith Gymraeg. Roedd Cymru'n bennaf yn wledig o hyd, gyda dim ond ychydig o drefi bach. Ond roedd pethau'n dechrau newid wrth i'r Chwyldro Diwydiannol fagu cyflymder. Roedd gweithfeydd haearn wedi cael eu sefydlu ym Merthyr Tudful a Blaenafon, ac roedd Abertawe yn barod ar y ffordd i ddod yn gynhyrchwr copr mwyaf y byd. Byddai'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn dod â newid

Beth am ysgrifennu stori i'r Wennol? Does dim rhaid iddi fod yn hir achos mae pobl o bob safon yn darllen Y Wennol.

Efallai byddech yn mwynhau'r profiad!

A wnewch chi basio'r Wennol ymlaen os gwelwch yn dda?


Dw i eisiau cael mwy o bobl i'w ddarllen a mwy o bobl i ysgrifennu erthyglau.

Beth amdanoch chi? Byddech chi'n hapus i ysgrifennu rhywbeth? Mae'n hawdd. Meddyliwch fod chi'n siarad efo ffrind ac yn sôn am eich gwyliau neu beth bynnag. Wedyn rhowch hynny ar bapur, bydda i'n gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn, felly, peidiwch â phoeni

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Ail Ddarllen

gan Ann Jones



Ydych chi'n hoff o nofelau hanesyddol? Dwi'n eithaf hoff o'r nofelau yma yn y Gymraeg, ond dim gymaint yn y Saesneg, er, dwi'n hoff iawn o nofelau C J Samson a Robert Harris. Yn y Gymraeg, ymysg y nofelau hanesyddol dwi wedi mwynhau mae rhai o nofelau Gwen Pritchard. Dau ffeffryn ydy Pieta a'r dilyniant Barato (er ei fod yn amser hir ers i fi ddarllen Pieta). Rhois Barato i ffrind i ddarllen - wel, dyna be o'n i am wneud, ond dyma o'n dod yn ôl yn y post!

Mae llyfrau Cymraeg yn dipyn o destun yn ein tŷ ni. Dwi'n eu prynu nhw fel arfer, er mwyn cefnogi awduron Cymraeg, a gan fy mod yn ddarllenwraig frwd, mae'r nifer o lyfrau yn cynyddu yn gyflym, a fy ngŵr yn mynnu nad ydw isio'r holl lyfrau. Ond dwi ond yn cadw'r rhai dwi am ailddarllen.

Gyda llyfrau Saesneg, dwi'n trio eu benthyg o'r llyfrgell os bosib (er bod pethau wedi mynd braidd ar chwâl ers Cofid a'r llyfrgell wedi cau tan yn ddiweddar). Os nad ydw i'n gallu gwneud hynny dw i'n eu prynu'n ail-law, ac wedyn maent yn mynd yn ôl i'r siop elusen.

Ond, gan fy mod i'n byw yn Lloegr dydy hynny dim yn bosib gyda llyfrau Cymraeg. Felly, gan nad wyf yn mynd i Gymru llawer ar y funud, o bryd i'w gilydd dwi'n anfon pecyn o lyfrau Cymraeg i ffrindiau yng Nghymru: i ddarllen neu roi i rywun arall neu i siop elusen. Ac i ddod yn ôl at Barato; dwi wedi ailgydio ynddo a dw i'n ei fwynhau unwaith eto! Dwi'n tueddu i anghofio stori ar ôl sbel ac felly mae ailddarllen fel darllen o'r newydd. Dwi wedi cyrraedd tudalen 152 yn y llyfr, ac er bod pytau yn gyfarwydd, dwi ddim yn cofio'r holl stori!

A dwi'n medru gwneud hyn hyd yn oed gyda llyfr ditectif (rhywbeth arall dwi'n hoffi!).

Nodyn gan yr Olygydd

Mae rhywbeth cyfforddus mewn cael llawer o lyfrau yn y tŷ, rywsut maen nhw'n teimlo fel hen ffrindiau, wedi'r cwbl roeddwn i wedi cael gymaint o hwyl yn eu darllen nhw. Byddech yn synnu faint o lyfrau sydd yn cael eu cyhoeddi pob blwyddyn, llyfrau ar bob pwn dan yr haul.

Llyfrau ditectif gan John Alwyn Griffiths ac eraill

Gwasanaeth Cudd gan Geraint V Jones

Llyfrau Doniol gan Daniel Davies

Clasuron gan T Rowland Hughes

Cefnogwch eich siop Cymraeg lleol am eich llyfrau a chofiwch fod llawer siop lyfrau ail-law ar-lein. Mae'n debyg bydd rhaid i chi gael llyfrau ail law os maen nhw wedi cael eu hargraffu ers ychydig o flynyddoedd. Mae llond fyd o bleser yna i chi fwynhau wrth ddysgu ar yr un pryd. Ac fel mae Anne wedi profi bydden nhw'n cymryd drosodd, pe bai hynny'n digwydd pasiuch nhw ymlaen i'ch ffrindiau sydd yn dysgu!

Does dim byd tebyg i eistedd i lawr a chael eich symud i fyd arall wrth ddarllen nofel a'r bonws yw bod chi'n casglu llawer o eiriau Cymraeg newydd yn y storfa yn eich pen.

Mwynhewch eich darllen!

Rob

Dysgwyr

Ydych chi wedi meddwl beth fydddech chi'n wneud pan mae eich cwrs wedi dod i ben?

Efallai nawr yw'r amser i chi ac aelodau eraill yn eich dosbarth ddod at eich gilydd i ymarfer siarad tu allan i'ch dosbarth.

Oherwydd Omicron mae'n debyg bydd rhaid i chi wneud hynny ar Zoom ond unwaith mae pethau'n gwella byddech yn barod i gyfarfod mewn caffi. Wedyn bydd y Cymry Cymraeg yn dod i'ch adnabod chi.

Peidiwch â gwastraffu'r holl amser dach chi wedi bod yn dysgu!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

CYMDEITHAS HANES BRO OGWR

RHAGLEN 2022/ PROGRAMME 2022

Sgyrsiau yn Gymraeg am hanes a diwylliant Cymreig ar gyfer Dysgwyr a phobl sy'n hollol rhugl.

Talks in Welsh about Welsh history and culture for learners and fluent speakers.

Bydd y sgyrsiau ar Zoom yn ystod 2022

10 IONAWR Zoom— 7 30 yh)

Eurwyn Williams - Crochendy Nantgarw

14 CHWEFOR (Zoom – 7 30 yh)

Non Vaughan-Williams - Y Cyfrwng Radio, Ei Hanes a'i Hanfod

14 MAWRTH (Zoom— 7 30yh)

Huw Meredydd Roberts - Caffis Eidalaidd yng Nghymru

9 MAI (Ymweliad)

Athro Madeleine Gray - Ymweliad ag Eglwys Llanilltud Fawr

13 MEHEFIN (Ymweliad)

Bill Jones - Ymweliad â Phriordy Ewenni

12 MEDI (Zoom – 7 30yh)

Richard Gammon - William Randolph Hearst a Chastell St Donats

10 HYDREF (Zoom— 7 30yh)

Delyth Jenkins- Hanes y Delyn a Thaith ar Lwybr Arfordir gyda'i Thelyn

14 TACHWEDD (Zoom— 7 30yh)

Sian James - Tair Cymraes Mae Hanes Wedi Anghofio

Mae Cymdeithas Hanes Bro Ogwr yn esiampl o beth mae dysgwyr wedi creu ond mae pob peth yn dechrau gyda phobl yn dod at ei gilydd yn y lle cyntaf.

Allech chi greu grŵp er mwyn siarad neu ar gyfer pwrpas arbennig ond yn gyntaf mae'n rhaid i chi ddod at eich gilydd!

Selogion Southgate

Mae dysgwyr wedi bod yn cyfarfod pob prynhawn Mawrth yng nghaffi'r Tri Chlogwyn ers amser erbyn hyn ac mae eu presenoldeb yn sicrhau bod pobl yn clywed eu hymdrechion. Roedd yr effaith yn drawiadol, doedd neb yn meddwl bod siaradwyr Cymraeg yn Southgate ond nid felly oedd pethau a chyn bo hir roedd Cymry Cymraeg yn dod atyn nhw i siarad. Nid yn unig hynny ond cawson nhw wahoddiad i gyfarfod o Gymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt ac maen nhw wedi bod yn aelodau selog ers hynny. Wrth lwyddo i gyrraedd y gymdeithas Cymraeg mae eu bywydau wedi newid ac maen nhw wedi darganfod gwir werth yr holl ddysgu.

Dim ond eisiau cadw eu Cymraeg yn fyw oedden nhw ond mae eu stori nhw yn wers i bob un sydd yn dysgu ein hiaith hyfryd. Ffurfiwch grŵp er mwyn cadw eich Cymraeg yn fyw a gwnewch yn siŵr bod cyfle i bobl eich clywed chi. Efallai bydd rhaid i chi wneud hyn ar Zoom i ddechrau ond, cyn cyntedd â phosib gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfarfod mewn lle agored.

A phrynwch gopi o'ch papur bro leol er mwyn cael gwybod am y pethau Cymraeg sydd yn digwydd o'ch cwmpas.

A dyma nhw yng nghanol eu parti Nadolig. A fydddech chi'n gwneud hyn Nadolig nesaf?

Dw i'n gobeithio y bydddech chi!

Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalen y Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Adduned y Flwyddyn Newydd

Beth dach chi'n mynd i addo gwneud yn y flwyddyn newydd? Eich 'New Year's Resolution! Dw i'n hen erbyn hyn felly does dim byd arall i mi wneud! Ond beth amdano chi? Oes syniad gennych chi?

Beth am gadw dyddiadur ac ysgrifennu rhywbeth bach bob dydd? Allech chi sôn am y tywydd - heddiw roedd hi'n wyntog, heddiw roedd hi'n braf. Mae hynny'n ddigon hawdd ac mae'n rhoi cyfle i chi ymarfer rywbeth dach chi'n dysgu ar ddechrau eich cwrs. Mae ymarfer yn beth da ac yn helpu chi i gofio geiriau a phatrymau.

Allech chi sôn am beth dach chi wedi gwneud - mynd am dro ar lan y môr neu cerdded yn y mynyddoedd. Ysgrifennwch i lawr popeth dach chi wedi gweld. Oeddech chi wedi mwynhau?

Beth gawsoch chi i ginio? Pa lyfr dach chi'n darllen. Ysgrifennwch unrhyw beth am eich diwrnod.

Ar ôl ychydig o ddyddiau byddech yn cofio'r geiriau yn gyflymach ac yn fwy hyderus yn yr iaith.

Y ffordd gorau i ddysgu iaith yw i ddefnyddio'r iaith. Gwnewch hynny yn dawel bach bob diwrnod ym 2022.

Pob hwyl!

Gaddo - to promise

Syniad - idea

Dyddiadur - diary

Cyfle - a chance

Unrhyw beth - anything

Yn dawel bach - quietly

Keep a Diary in 2022!

But in Welsh, of course! By doing that you will be quietly building your skills without being stressed. Think of this: in a conversation thinking has to be instant, you have to immediately know what people are saying to you and you have to try and answer in an instant otherwise the conversation just dies. I can't get rid of that stress for you but I can help you reduce it.

This is the 22nd issue of Y Wennol and in that time many have sent me articles to publish and I have been delighted to do so. What has really pleased me is the way that I have seen the standard of Welsh improve and a huge increase in the writers' confidence. I don't care if mistakes are made, they can be gently corrected and no-one needs to be embarrassed. There is no corporal punishment and no-one will be made to do a hundred lines! Writing should be a pleasure and I would bet that after the first time you see your article published you'll be hooked.

But everyone needs an easy place to start from and I need your early efforts. So write a little something in your diary each day and when you're ready send a piece to me. I don't want a full page, just a paragraph will be fine. If there are any little mistakes I shall send it back to you corrected so that you gradually get used to putting words together.

This will help you when you find yourselves in conversation because you will have built confidence and that is what is really important. I lost my Welsh for 25 years and it was a huge mountain to climb to get it back. Climbing that mountain changed my life in a way that I can't really describe but when you reach the stage where you are happy to converse you will begin to feel what I felt.

Send me your contributions and begin to see what you can achieve! Happy New Year!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

I need your help!

I know that some of the articles in this newsletter are difficult to read and I am trying to have articles that suit everybody.

The most effective way for me to publish articles that suit you is, quite simply for you to write them.

This will benefit you in that I will go through everything and together we can produce an article that you can be proud of.

Using the language that you have learned so far is the best way to consolidate and move on to higher things.

Together we can do great things!

Why not have a go!

Improving your Welsh

Whichever way you have chosen to learn Welsh you will benefit greatly from reading. The little pieces on the previous page will provide you with a small challenge - there may be a word or two which you don't understand but your brain probably has a good idea of the meaning because of the context of the sentence. That is how we all learnt our first language. Your parents didn't sit you down in front of a blackboard and explain to you all about tenses of verbs and suchlike. It all just came naturally.

You could restrict your learning to the particular course you are using but that would just be a theoretical experience. The sooner you start to use whatever knowledge you have accumulated then the sooner everything fits into place.

Never forget that the process of learning is a progressive thing. If you don't have the challenge of new things to learn then you just stay in the same place. You need to do challenging things.

Fortunately learning a language is not like learning rock climbing. Learning a language does not put you in any great danger by accepting a challenge.

Your biggest challenge will be when you are faced with having to have a conversation for real and in Welsh. Accepting smaller challenges and

getting used to them will make that bigger challenge less painful.

What are these smaller challenges?

To Read

1) Make a point of heading for Tudalen y Dechreuwyd and read every item. Ask yourself if you have fully understood it. What words were you unsure of? Make a note of those words in your mind.

2) Read the pieces again the next day and you will find that you feel more comfortable. That is when you will realise that words you had not come across have been put in your subconscious memory.

3) When you feel totally comfortable with that page have a go at some of the other articles but don't expect to understand at the same level. It will come but it takes time and perseverance.

To Write

1) Writing gives you more time to think about what you want to say and how you want to say it. One day you will be faced with the challenge of having a real conversation and you will feel great pressure because your brain will be working overtime in trying to get words on to the tip of your tongue.

2) That pressure will be greatly reduced if you have been used to writing because you will have got used to using the words you have learned on your course and also words which you have discovered by writing.

3) Writing is something that can be enjoyed and the more you write, the more progress you make. You will also be so pleased if you were to see that in print. And that is where the Wennol comes in, not only does it give you the opportunity to read Welsh but it also gives you the opportunity to get it published. I will make sure that it is correct.

4) So I want some little pieces for Tudalen y Dechreuwyd and what I want you to do is introduce and say a bit about yourselves. And that is something you did right at the start and it should be really easy for you.

And it saves me a lot of thinking too!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



NADOLIG LLAWEN

I BAWB



MWYNHEWCH YR WYL



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Gweld Geiriau

Y	S	G	O	L	Y	P	E	N	T	R	E	F	C	O
Z	A	L	C	A	E	R	N	A	R	F	O	N	A	S
Y	I	A	B	W	R	I	A	D	O	B	G	R	M	LL
W	G	W	I	R	F	O	DD	O	L	I	A	M	P	E
E	S	P	A	A	F	D	A	G	A	LL	A	N	A	F
N	O	F	I	O	LL	O	S	R	T	E	S	T	U	N
N	U	P	TH	A	B	L	C	P	E	N	N	A	E	TH
O	S	C	Y	M	R	U	A	M	B	Y	TH	M	O	N
L	H	Y	N	B	FF	P	N	Y	S	DD	T	A	N	S
N	LL	P	E	R	E	R	I	N	D	O	D	I	D	P
A	CH	A	F	A	L	Y	A	G	W	L	A	D	R	O
D	A	F	O	N	RH	D	T	A	R	W	A	D	Y	N
O	LL	G	E	O	D	A	A	E	N	O	PH	N	DD	D
L	Y	A	DD	E	W	I	D	I	O	N	T	Y	S	T
I	G	LL	A	W	E	N	B	W	L	D	Y	S	G	U

Mae'r geiriau yn y pos yma yn rhedeg i fyny ac i lawr. Faint o eiriau, neu enwau, dach chi'n gweld? Dydi eiriau un llythyren ddim yn cyfri, wrth gwrs!

Os dach chi eisio gweld hyn fel cystadleuaeth anfonwch eich rhestr ataf i. Peidiwch â gofyn i mi faint sydd yna achos dw i wedi anghofio! Byddaf yn enwi'r goreuon yn y rhifyn nesaf - eich cyfle i fod yn enwog!

Pob lwc!

Pos Val

1				2		3		4
5		6						
7					8			
				9				
		10						11
12				13				

Cliwiau

Ar Draws

- 1) Amddifyn
- 2) Cownter tafarn
- 5) O radd is
- 7) Mawreddog
- 8) Ychwanegu
- 10) Lluosog
- 12) Pâr
- 13) Gwastad

I Lawr

- 1) Mab I frawd
- 2) Heb ddaioni
- 3) Cyflwr balch
- 4) Diwifr
- 6) Llinynnau
- 7) Difrod
- 9) Ffrwyth Adam
- 11) Tost

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cwis y Nadolig

- 1) Beth yw'r cysylltiad rhwng Anna Sewell a Banc Lloyds?
- 2) Beth yw'r cysylltiad rhwng Mercher, Gwener, Mawrth, Sadwrn? (nid dyddiau'r wythnos yw'r ateb)
- 3) Beth yw ffug-enw yr awdur David Cornwell?
- 4) Ym mha lyfr mae'r cymeriadau Athos, Porthos ac Aramis?
- 5) Beth yw'r cysylltiad rhwng arth, mochyn, teigr ac asyn?
- 6) Beth sydd yn 270 milltir o hyd ac yn mynd o Edale i Kirk Yetholm?
- 7) Beth dach chi'n cysylltu â Thomas Sheraton?
- 8) Pa anifail sydd yn byw mewn 'sett'?
- 9) Mewn cân pa greadur oedd i'w clywed yn Berkeley Square?
- 10) Pa arwydd o'r Zodiac sydd yn cynnwys Ebrill a Mai?

Atebion (os dw i'n cofio) yn rhifyn mis Chwefror.

Geirfa

Rhywbeth ar y Gweill

Ar y gweill - on the go
 Gwau - to knit
 Gorchuddio - to cover
 Gwlân - wool
 Nant - stream
 Ewinedd - nails
 Gweill - knitting needles
 Gwlanog - wooly
 Bwrw - to spend (time)
 Cweryla - to quarrel
 Tyn - tight
 Dim yn deg - not fair
 Udo - to wail
 Ffedog - apron
 Curiad - a beat
 Cwblhau - to complete
 Canlynol - the following
 Yn ôl ei arfer - in its usual way
 Edau - thread

Bloeddio - to shout
 Trwm - heavy
 Glynu - to stick
 Llusgo - to drag
 Nerth ei ben - at the top of his voice
 Llym - severe
 Rhwygo - to tear
 Cawr - giant
 Cloccio - to clatter
 Brwdfrydig - enthusiastic
 Dan ei hanadl - under her breath
 Addurniad - decoration
 Yr un un - the same one
 Tynnu at - approaching
 Pefrio - to sparkle
 Ar garlam - at a gallop
 Cyflawn - complete

Gwyliau Tramor

Eglwys gadeiriol - cathedral
 Deniadol - attractive
 Byr, byrrach - short, shorter
 Synhwyrol - sensible
 Rhagorol - excellent
 Cyffro - to excite
 Cydraddol - equal
 Cyfartal - equal
 Genedigaeth - birth
 Rhyddhad - release
 Arian parod - cash

Blodau mis Ionawr

Cyfarfod blynyddol - annual meeting
 Cynhadledd - conference
 Llywydd - president
 Gosod - to set
 Yn eu harddwch - in their beauty
 Eithin - gorse
 Argraff - impression
 Dros dro - temporary
 Cylchdaith - circular walk
 Mynediad - entrance
 Brig - branch
 Dirwystr - without hindrance
 Yn unman - anywhere
 Ysgallen - thistle
 Gweddillion - remains
 Mwyar duon - blackberries
 Diafol - the devil
 Poeri - to spit
 Rhywbeth gwaeth - something worse

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Addawol - promising
Gwên llydan - wide smile

Diwydiannau hen Benclawdd

Cul - narrow
Diwydiant cocos - cockle industry
Diwydiannau trwm
Cernyw - Cornwall
Maes glo - coalfield
Tanio - to fire
Llongau hwylio - sailing ships
Gwaith plwm - lead works
Plât tun - tinsplate
Nwyddau - goods
Dibynnu - to depend
Llanw - tide
Estyn - to extend
Wedi cysylltu â - connected to
Pen pellaf - the far end
Masnachwr glo - coal merchant
Denu - to attract
Cyflwyno - to introduce
Cosbi - to punish
Digalonni - to lose heart
Effeithio ar - to affect
Ysgoloriaeth - scholarship

Hanes y Gymraeg

Cylchlynol - circular
Llythrennog - literate
Pellgyrhaeddol - far-reaching
Cyfundrefnol - orderly
Diwygiad - revival
Arweinwr - leader
Enaid - soul
Tanbaid - fiery
Cyflwyno - to introduce
Codi uwchlaw - to raise above
Tafodiaith - dialect
Emyn - hymn
Cyfansoddiad - composition
Ysgolhaig - scholar
Adfer - to restore
Dychanwr - satirist
Parchus - respectable
Anghenion cyfoes - contemporary needs
Cyfoethog - wealthy
Cymhleth - complicated
Ysbarduno - to spur on
Llenyddiaeth - literature
Cyfrifiad - census

Gweledig - rural
Chwyldro diwydiannol - industrial revolution
Bygythiad - threat

Ail Ddarllen

Dilyniant - sequel
Testun - subject
Brwd - enthusiastic
Cynyddu - to increase
Mynnu - to insist
Ar chwâl - gone to the dogs
Siop elusen - charity shop
Pytiau - pieces
Cyfarwydd - familiar



Gan fy mod i'n cyhoeddi'r Wennol ar ddiwrnod Nadolig does dim modd i mi gynnwys teithiau Cymdeithas Edward Llwyd yn y rhifyn yma.
Ewch at:

Gwynedd a Môn

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gwynedd-a-mon-hydref-a-gaeaf-2020/>

Gogledd Dwyrain

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddau-gogledd-ddwyrain-hydref-2020/>

De a'r Canolbarth

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/y-de-ar-canolbarth-medi-2020/>

Atebion

Ar Draws

- 1) Nodded
- 2) Bar
- 5) Israddol
- 7) Nobl
- 8) Adio
- 10) Niferus
- 12) Dau
- 13) Lefel

I Lawr

- 1) Nai
- 2) Didda
- 3) Balchder
- 4) Radio
- 6) Rubanau
- 7) Niwed
- 9) Afal
- 11) Sâl